

TYMOR NYTHU ADAR

RHAGOFALON

Yn gyffredinol, ystyrir bod y tymor nythu adar yn dechrau ddiwedd mis Chwefror ac yn dod i ben ddiwedd mis Gorffennaf. Mae bron pob aderyn sy'n nythu wedi'i ddiogelu gan y gyfraith.

Yn ystod y cyfnod yma rhaid cymryd pob rhagofal rhesymol i beidio ag aflonyddu adar sy'n nythu, mae hyn yn cynnwys nythod cyflawn a nythod sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Dydy nythod o flynyddoedd blaenorol, na nythod yr adar ifainc sydd wedi gadael eleni ddim wedi'u diogelu.

Cyn cychwyn unrhyw waith, gwnewch archwiliad gweledol o'r ardal sydd i'w thorri a nodi os oes adar yn bresennol sy'n ymddwyn mewn modd cynhyrfus neu wedi'u haflonyddu. Os bydd adar yn hedfan yn ôl i'r un ardal yn gyson gan wneud 'galwadau gofid', gallai hyn olygu bod nyth gerllaw.

Os bydd nyth yn cael ei darganfod yn ystod y gwaith torri, rhaid i'r gwaith ddod i ben yn syth yn yr ardal yna a sicrhau bod y nyth ddim wedi'i ddadorchuddio.

Os oes angen clirio ardal fawr o dir prysg neu fieri, y cyngor gorau yw bod hyn yn cael ei wneud ar ôl y tymor nythu adar, a chlirio yn ystod cyfnod mis Awst i fis Ionawr pan fydd gweithgarwch nythu adar llawer yn is.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth neu os oes angen cyngor arnoch, cysylltwch â ni: -

Ebost: gwasanaethauigwsmeriaid@rhondda-cynon- Taf.gov.uk

Ffôn: **01443 425 001**

Trwy'r Post:
Adran Cefn Gwlad
Uned 7C Parc Busnes Hepworth
Lôn Coedcae
Pont-y-clun
CF72 9DX